



Datblygu perthynas dda

Mae Mencap wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth o safon uchel i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd, gan ofalu am les ein cydweithwyr hefyd yr un pryd.

Mae ein gwaith gyda phobl ac, fel ym mhob agwedd o fywyd, gall sefyllfaoedd anodd a chymhleth godi a all gynhyrfu pawb sy'n gysylltiedig â hwy. Gall y sefyllfaoedd hyn gael effaith sylweddol ar y bobl rydyn ni'n eu cefnogi, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'n cydweithwyr. Mae wastad yn fwriad gennym i sicrhau bod yr effaith hon yn cael ei lleddfu a bod y berthynas werthfawr sydd gennym â theuluoedd a ffrindiau yn cael ei diogelu a'i gwella'n barhaus.

Er mwyn creu a chadw perthynas dda, gadarnhaol, rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod y modd rydyn ni'n cyfathrebu a'n hymadweithiau yn gwrtais bob amser. Gobeithiwn y bydd hyn yn arwain at berthynas llawn parch o'r ddwy ochr fydd yn ein galluogi i weithio'n effeithiol gyda'n gilydd.

Ni fyddwn yn goddef unrhyw gyfathrebu gan ein cydweithwyr fydd yn disgyn islaw'r safon ddisgwyliedig hon ac fe ofynnwn eich bod chithau'n cynnal yr union safon hon wrth gyfathrebu â hwy.

Rheolwyr Rhwydweithiau Teuluoedd

Pan fydd sefyllfaoedd yn codi ac y bydd angen cefnogaeth ychwanegol, byddwn yn gweithio gyda'n Rheolwyr Rhwydweithiau Teuluoedd, yn ogystal â chydag unrhyw asiantaethau lleol a allai fod yn gysylltiedig, er mwyn sicrhau bod pobl yn gwranddo arnoch a bod eich llais yn cael ei glywed fel ein bod yn gallu gweithio tuag at gyflawni canlyniadau da pryd bynnag y mae hynny'n bosibl.

Cydweithwyr anweithredol yw'r Rheolwyr Rhwydweithiau Teuluoedd, sy'n gweithredu o fewn fframwaith di-duedd i wrando ar bryderon a godir gan deuluoedd, ffrindiau a thimau gyda'r bwriad o chwilio am ddatrysiadau cadarnhaol mewn modd teg ac anfarnol.